

**CYNGOR BRO MORGANNWG**  
**GORCHYMYN CAU FFYRDD DROS DRO 2021**  
**GŴYL Y GOLEUNI**  
**PARC CANOLOG, SGWÂR Y BRENIN Y BARRI**  
**DYDD GWENER 3ydd – DYDD SUL 5ed RHAGFYR 2021**

**RHODDIR HYSBYSIAD DRWY HYN** fod Cyngor Bro Morgannwg wedi gwneud Gorchymyn o dan Adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel a ganlyn: **GAN FOD** Cyngor Bro Morgannwg fel yr Awdurdod Priffyrdd yn fodlon y dylid cyfyngu traffig ar y strydoedd neu rannau ohonynt fel y'i rhestrwyd yng ngholofn 2 yr Atodlen er mwyn cynnal digwyddiad perthnasol, mae'r Cyngor, yn unol â'r pwerau a roddwyd iddo gan Adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, yn **GORCHYMYN AC YN CYFARWYDDO DRWY HYN**, er mwyn hwyluso'r gwaith o gynnal y digwyddiad, galluogi aelodau o'r cyhoedd i wylïo'r digwyddiad dan sylw a lleihau'r effaith debygol o darfu ar y traffig a achosir gan y digwyddiad, y caiff y rheoliadau canlynol eu dilyn:- **Y CAIFF** y strydoedd a'r rhannau ohonynt sydd wedi eu rhestru yn atodlen 1, ac eithrio yn ôl yr hyn a ddarperir gan y gorchymyn, eu cau i'r holl draffig cerbydau gan gynnwys beiciau pedal ac eithrio cerbydau'r Gwasanaethau Brys a deiliaid trwyddedau preswylwyr rhwng yr oriau a nodir yng ngholofn 3 yr atodlen. Y gosb am dorri'r rheoliad hwn yw dirwy nad yw'n uwch na £1,000.

**Atodlen 1**

| <b>Colofn 1</b>   | <b>Colofn 2</b>   | <b>Colofn 3</b>  |
|---|---|--|
| Dydd Gwener 3 rhagfyr 2021<br>I Dydd Sul 5ed Rhagfyr 2021 | Yr ardal sydd i'w chau yw Heol Holtwn, Y Barri, o'i chyffordd â Heol Tŷ Newydd hyd at bwynt 50m i'r dwyrain i'w chyffordd â Stryd Llanilltud. | Rhwng 6.00pm a 9.30pm o ddydd Gwener 3 Rhagfyr 2021 i ddydd Sul 5 Rhagfyr 2021 |

Bydd y ffordd ar agor i gerddwyr ar bob adeg.  
Dyddiedig 18 Tachwedd 2021  
Cyfarwyddwr Amgylchedd a Thai  
Cyngor Bro Morgannwg,  
The Alps, Gwenfô CF5 6AA.